# LLENYDDIAETH

## Amodau arbennig

1. Rhaid cofrestru a chyflwyno holl gyfansoddiadau'r adran yn ddigidol drwy wefan yr Eisteddfod, gan uwchlwytho gwaith a chwblhau'r broses erbyn dyddiad cau y gystadleuaeth.
2. Ni chaniateir anfon yr un gwaith yn ei hanfod i fwy nag un gystadleuaeth.
3. Ymrwymiadau: Os oes gan gystadleuydd ymrwymiad fel awdur gyda chyhoeddwr arbennig, rhaid iddynt roi enw'r cyhoeddwr, ynghyd â'u henw a manylion cyswllt wrth gofrestru.

**DS Dylech sicrhau eich bod wedi darllen y Rheolau ac Amodau Cyffredinol cyn cystadlu**

# BARDDONIAETH

## Awdl neu gasgliad o gerddi 701

**Cystadleuaeth Y Gadair**

Awdl neu gasgliad o gerddi mewn cynghanedd gyflawn, ar fwy nag un o'r mesurau traddodiadol, hyd at 250 o linellau
Testun: **Llinell | Llinellau**

**Gwobr:** Cadair yr Eisteddfod (Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro) a £750 (Geraint a Siân James, Siop Awen Teifi, Aberteifi)

**Beirniaid:** Idris Reynolds, Carwyn Eckley, Mererid Hopwood

## Pryddest neu gasgliad o gerddi 702

**Cystadleuaeth Y Goron**

Cerdd neu gasgliad o gerddi hyd at 250 o linellau
Testun: **Adnabod**

**Gwobr:** Coron yr Eisteddfod (Teulu'r Parch WJ Gruffydd (Elerydd) a Mrs Jane Gruffydd er cof, ac mewn gwerthfawrogiad o deyrngarwch a haelioni aelwydydd bro'r Eisteddfod yn ystod eu gweinidogaeth yn yr ardal) a £750 (Papur bro Y Cardi Bach, er cof am Mrs Rhoswen Llewellyn a'r Parchedig Euros Wyn Jones, cyn-olygyddion)

**Beirniaid:** Damian Walford Davies, Gwynfor Dafydd, Nia Powell

*Cystadleuaeth ar gyfer cerdd neu gerddi ar y mesurau rhydd neu benrhydd yw cystadleuaeth y Goron ac ni chaniateir cerddi ar y mesurau caeth traddodiadol. Ni chaniateir ond defnydd achlysurol iawn o'r gynghanedd yn y gystadleuaeth*

## Englyn unodl union 704

Testun: **Cloch**

**Gwobr:** Tlws coffa Dic yr Hendre i'w ddal am flwyddyn a £200 (Helen a'r teulu, er cof am Dafydd Wyn Jones, Aberteifi)

**Beirniad:** Gruffudd Eifion Owen

*Caniateir cyflwyno hyd at 5 englyn fel rhan o'r un cais*

## Englyn ysgafn 705

Testun: **Mwg**

**Gwobr:** £200 (Papur Bro Clebran)

**Beirniad:** Tudur Dylan Jones

*Caniateir cyflwyno hyd at 5 englyn fel rhan o'r un cais*

## Cerdd gaeth 706

**heb fod dros 30 o linellau**

Testun: **Arloesydd**

**Gwobr:** £200 (Gwobr Goffa Islwyn Jones)

**Beirniad:** Anwen Pierce

## Cerdd mewn tafodiaith 707

Testun: **Cymydog | Cymdogion**

**Gwobr:** £200 (Capel Ebeneser Dyfed Eglwyswrw, er cof am Y Parch TR Jones a Mrs Marina Jones)

**Beirniad:** Elinor Wyn Reynolds

## Telyneg 708

**heb fod dros 20 o linellau**

Testun: **Harbwr**

**Gwobr:** £200 (Capel Ebeneser Dyfed a Chapel Penuel Cemaes, er cof am Y Parch TR Jones a Mrs Marina Jones)

**Beirniad:** Jo Heyde

## Soned 709

Testun: **Ymweliad**

**Gwobr:** £200 (Siân, Delyth, Rhian, Dafydd, Brychan a Tristan, er cof am Dic yr Hendre ac Esyllt)

**Beirniad:** Myrddin ap Dafydd



# RHYDDIAITH

## Gwobr Goffa Daniel Owen 2026 712

Nofel heb fod yn llai na 50,000 o eiriau

**Gwobr:** Medal Goffa Daniel Owen a £5000

**Beirniaid:** Meinir Wyn Edwards, Llwyd Owen, Geraint Evans

**Dyddiad cau:** 1 Hydref 2025

## Gwobr Goffa Daniel Owen 2027

Nofel heb fod yn llai na 40,000 o eiriau

**Gwobr:** Medal Goffa Daniel Owen a £5000

**Beirniaid:** Caryl Lewis, Sioned Wyn Roberts, Jon Gower

**Dyddiad cau:** 1 Hydref 2026

## Y Fedal Ryddiaith 2026 713

Cyfrol o ryddiaith greadigol heb fod dros 40,000 o eiriau
Testun: **Mur | Muriau**

**Gwobr:** Y Fedal Ryddiaith a £750 (John a Bethan Cwmbetws, er cof am eu rhieni Tom a Doris Davies)

**Beirniaid:** Meleri Wyn James, Iwan Rhys, Angharad Price

**Dyddiad cau:** 1 Rhagfyr 2025

## Y Fedal Ryddiaith 2027

Cyfrol o ryddiaith greadigol
Testun: **Arbrawf**

**Gwobr:** Y Fedal Ryddiaith a £750

**Beirniaid:** Eurig Salisbury, Lleucu Roberts, Megan Angharad Hunter

**Dyddiad cau:** 1 Hydref 2026

## Gwobr stori fer Tony Bianchi 714

hyd at 3,000 o eiriau
Testun: **Traeth**

**Gwobr:** Gwobr Tony Bianchi a £200 (Clwb Darllen Llyfrau Cymraeg Trewyddel)

**Beirniad:** Dyfan Lewis

## Nofel dditectif 717

Braslun a phennod gyntaf hyd at 2,000 o eiriau

**Gwobr:** £200

**Beirniad:** Gwen Parrott

## Gwobr ysgrif J Elwyn Hughes 718

hyd at 1,500 o eiriau
Testun: **Aber**

**Gwobr:** £200 (Eirwyn a Maureen George, Maenclochog)

**Beirniad:** Dylan Iorwerth

## Dyddiadur taith 719

hyd at 2,000 o eiriau

**Gwobr:** £200 (Cymdeithas ddiwylliannol Clychau Clochog, Maenclochog)

**Beirniad:** Wyn Gruffydd

## Gwerthusiad 721

**o waith unrhyw artist creadigol o fro'r Eisteddfod**

hyd at 5,000 o eiriau

**Gwobr:** £200 (Idris ac Elsie Reynolds)

**Beirniad:** Steffan Messenger

## Cystadleuaeth Y Wladfa 722

**i rai sydd wedi byw yn Y Wladfa ar hyd eu hoes ac sy'n dal i fyw yn yr Ariannin**

Cyflwyniad ar ffurf ysgrif (i gynnwys delweddau os yn berthnasol) hyd at 2,000 o eiriau neu recordiad llais a/neu llun hyd at 5 munud o hyd
**Testun:** Dathlu 160 mlynedd Y Wladfa

**Gwobr:** Gwobr Goffa Shan Emlyn gan ei merched Elin Edwards a Mari Emlyn a £200 (Wyn Owens, Llwynhelyg, Mynachlog-ddu)

**Beirniad:** Ioan Kidd

## Ymryson y Beirdd 723

**Cynhelir gan Barddas yn y Babell Lên yn ystod wythnos yr Eisteddfod**

**Yr Englyn Ymryson gorau**
Tlws T Arfon Williams a £100 (teulu y diweddar T Arfon Williams) am englyn gorau'r Ymrysonau

**Yr Englyn y Dydd gorau**
£30 i enillydd dyddiol, a Thlws Coffa John Glyn am Englyn y Dydd gorau'r wythnos

**Y Limrig y Dydd gorau**
£30 i enillydd dyddiol, a Thlws Coffa Edgar Parry Williams am Limrig y Dydd gorau'r wythnos

## AGORED

### Ysgoloriaeth fentora Emyr Feddyg 703

**er cof am Dr Emyr Wyn Jones, Cymrawd yr Eisteddfod**

Sefydlwyd yr ysgoloriaeth flynyddol hon i gynnig hyfforddiant i lenor neu fardd na chyhoeddwyd cyfrol o waith ganddynt eisoes. Gofynnir i'r cystadleuwyr uwchlwytho gwaith mewn unrhyw ffurf neu arddull – boed yn farddoniaeth neu'n rhyddiaith (neu'n gyfuniad o farddoniaeth a rhyddiaith) – heb i'r cyfan fod yn hwy na 3,000 o eiriau. Rhaid i bob cyfansoddiad fod yn gynnyrch gwreiddiol gan yr awdur a heb ei gyhoeddi

Bydd yr enillydd yn cael prentisiaeth yng nghwmni mentor profiadol a ddewisir ar y cyd gan yr enillydd a'r Eisteddfod. Mae cyfanswm o £1000 ar gael ar gyfer y mentora; yn ogystal â thâl i'r mentor, gellir cyfrannu tuag at gostau teithio ac unrhyw gostau eraill perthnasol i'r hyfforddiant o'r swm hwn. Ni all unrhyw un dderbyn yr ysgoloriaeth fwy nag unwaith

**Gwobr:** £200 (Capel Ebeneser Dyfed a Chapel Penuel Cemaes, er cof am y Parch TR Jones a Mrs Marina Jones)

**Beirniad:** Gerwyn Wiliams

### Tlws yr Ifanc o dan 25 oed 720

**mewn partneriaeth â Chymdeithas Eisteddfodau Cymru**

Darn o farddoniaeth neu ryddiaith ar unrhyw ffurf, hyd at 2,000 o eiriau. Caiff Eisteddfod sydd yn aelod o'r Gymdeithas anfon hyd at 3 darn o waith o blith cyfansoddiadau llenyddol o dan 25 oed yr Eisteddfod (rhaid cynnwys yr enillydd), at sylw swyddog gweinyddol y Gymdeithas ar gyfer y gystadleuaeth hon

**Gwobr:** Tlws yr Ifanc a £200 (Dosbarth cynganeddu Castell Aberteifi)

**Beirniaid:** Naomi Seren Nicholas, Steffan Phillips

*Dyfernir y Tlws am waith gan ymgeiswyr o dan 25 oed ar ddyddiad unrhyw un o eisteddfodau lleol Cymru rhwng 1 Ebrill 2025 a 30 Ebrill 2026*

### Casgliad o Lên Micro 724

Y casgliad i fod dim hwy na 1,000 o eiriau
Testun: **Datod**

**Gwobr:** £200 (Cymdeithas Waldo)

**Beirniad:** Mared Lewis

## MAES D

**Beirniaid**
Kimberley Abodunrin a Jessica Robinson

### Amodau arbennig

1. **Lefelau Dysgu**: Rhennir yn unol â lefelau dysgu Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Ewch i wefan Y Ganolfan (*www.dysgucymraeg.cymru/dysgu/lefel-dysgu)* am ganllawiau pellach.
2. Mae'r cystadlaethau ar gyfer dysgwyr Cymraeg dros 16 oed, ar wahân i'r gystadleuaeth ieuenctid sy'n agored i ddysgwyr rhwng 12 ac 19 oed.
3. Rhaid i bob ymgeisydd uwch-lwytho'u gwaith ar ffurf Word (docx), PDF neu MP3 (podlediad) wrth gofrestru erbyn dyddiad cau y gystadleuaeth.

**DS Dylech sicrhau eich bod wedi darllen y Rheolau ac Amodau Cyffredinol cyn cystadlu**

### Dysgwr y Flwyddyn 801

Yn agored i unrhyw ddysgwr 18 oed a throsodd sydd yn siarad Cymraeg yn eithaf hyderus. Gallwch hunan-enwebu neu dderbyn enwebiad gan diwtor, aelod o'r teulu, cyfaill neu gyfoed drwy gyflwyno ffurflen ar-lein ar wefan yr Eisteddfod

Mae modd sôn am y canlynol:

- teulu a diddordebau
- rheswm dros ddysgu Cymraeg
- sut yr aeth y dysgwr ati i ddysgu'r iaith
- effaith dysgu Cymraeg ar fywyd y dysgwr a'r defnydd mae'n ei wneud o'r Gymraeg
- gobeithion ar gyfer y dyfodol.

Y rownd gynderfynol i'w chynnal yn rhithiol mewn partneriaeth gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

**Beirniaid y rownd gynderfynol**: Karl Davies, Kevin Knox a chynrychiolydd o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg
**Beirniaid y rownd derfynol**: Karl Davies, Kevin Knox a Mirain Iwerydd

**Gwobr:** Tlws Dysgwr y Flwyddyn (yn rhoddedig gan Gymdeithas Waldo) a £300 (Geraint a Siân James, Siop Awen Teifi, Aberteifi)

Dyddiad cau i dderbyn enwebiadau drwy wefan yr Eisteddfod: **1 Mai 2026**

*Caiff yr enillydd wahoddiad i fod yn aelod o'r Orsedd ynghyd â gwahoddiad i ymuno â Phanel Dysgwyr yr Eisteddfod Genedlaethol. Yn ogystal, ceir rhoddion gan fudiad Merched y Wawr*

### Côr dysgwyr 802

**rhwng 13 a 45 mewn nifer**

Cyflwyno rhaglen hunanddewisiad hyd at 5 munud

**Gwobrau:**

1. £200 (Cyfreithwyr Redkite, sydd â swyddfeydd yn Hwlffordd, Penfro, Dinbych y Pysgod a Hendy-gwyn ar Daf)
2. £150 (Teulu Volk, Clawddcam, Llandudoch)
3. £100 (Euros a Bethan Griffiths, Blaendyffryn, Mynachlog-ddu)

*Caniateir i 25% o aelodau'r côr fod yn unigolion nad ydynt yn ddysgwyr*

### Grŵp lleisiol 803

**hyd at 12 mewn nifer**

Cyflwyno rhaglen hunanddewisiad hyd at 5 munud

**Gwobrau:**

1. £150 (Cymdeithas Waldo)
2. £120 (Cymdeithas Waldo)
3. £90 (Cymdeithas Waldo)

*Caniateir i 25% o aelodau'r côr fod yn unigolion nad ydynt yn ddysgwyr*

### Unawd agored 804

hunanddewisiad hyd at 4 munud

**Gwobrau:**

1. £100 (Canolfan Llwynhirion, Brynberian)
2. £80 (Er cof am Mansel Owen, Wyn a Julie Owen, Llandudoch)
3. £60 (Er cof am Mansel Owen, Wyn a Julie Owen, Llandudoch)

### Cyflwyno cerdd 805

**Parti llefaru agored hyd at 16 mewn nifer**

'Cân Walter', Meic Stevens, '*101 o Ganeuon Pop.*' gol. Meinir Wyn Edwards [Y Lolfa]

**Gwobrau:**

1. £150 (Marian Thomas)
2. £120 (Cymdeithas Waldo)
3. £90 (Cymdeithas Waldo)

*Caniateir i 25% o aelodau'r côr fod yn unigolion nad ydynt yn ddysgwyr*

### Llefaru unigol 806

'Y Sbectol Hud', Mererid Hopwood
Cysylltwch â cystadlu@eisteddfod.cymru am gopi o'r gerdd

**Gwobrau:**

1. £100 (Eisteddfod Gadeiriol Brynberian)
2. £80 (Merched y Wawr Mynachlog-ddu)
3. £60

### Sgwrs rhwng dau 807

**Lefel agored**

Perfformio deialog o unrhyw lyfr cwrs

**Gwobrau:**

1. £100 (Merched y Wawr Ffynnongroes)
2. £80 (Merched y Wawr Mynachlog-ddu)
3. £60

## MAES D CYFANSODDI

### Cadair y Dysgwyr 851

**Barddoniaeth**

Cerdd ar unrhyw ffurf
Testun: **Y Bae**

**Gwobr:** Cadair y Dysgwyr a £200 (Menter Iaith Sir Benfro)

**Beirniad:** Emyr Lewis

### Tlws Rhyddiaith y Dysgwyr 852

**Rhyddiaith**

Darn o ryddiaith hyd at 500 o eiriau
Testun: **Llwybrau**

**Gwobr:** £200 (Wyn Owens, Llwynhelyg, Mynachlogddu)

**Beirniad:** Caryl Lewis

### Lefel mynediad 853

Darn hyd at 100 o eiriau
Testun: **Sgwrs ar y traeth**

**Gwobr:** £75 (Debbie Smith, i ddathlu dysgwyr Cymraeg ar draws y byd)

**Beirniad:** Rhiannon Iwerydd

### Lefel sylfaen 854

Darn hyd at 150 o eiriau
Testun: **Sgwrs ar daith gerdded**

**Gwobr:** £75 (Euros a Bethan Griffiths, Blaendyffryn, Mynachlogddu)

**Beirniad:** Sean Driscoll

### Lefel canolradd 855

Llythyr hyd at 200 o eiriau
Testun: **Annwyl reolwr...**

**Gwobr:** £75 (Euros a Bethan Griffiths, Blaendyffryn, Mynachlogddu)

**Beirniad:** Martyn Croydon